

Datblygiad arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood

Ymgynghoriad Statudol Cyn-ymgeisio
26 Mawrth i 29 Ebrill 2025



Tabl Cynnwys

Ynglŷn â Liverpool Bay CCS Limited	2	Mae Liverpool Bay CCS Limited (LBCCS), aelod o'r grŵp Eni SpA, yn arwain y gwaith ar Ddatblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood (CO ₂).
Ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig	3	
Yr ymgynghoriad hwn	3	Mae LBCCS yn datblygu system gludo a storio CO ₂ a fydd yn gwasanaethu clwstwr datgarboneiddio diwydiannol HyNet trwy gludo'r CO ₂ o fannau dal CO ₂ ar safleoedd diwydiannol presennol a'i storio'n ddiogel mewn cronfeydd nwy naturiol wedi'u disbyddu o dan wely'r môr ym Mae Lerpwl.
Technoleg Dal a Storio Carbon	4	
Ynglŷn â HyNet North West	6	
Y stori hyd yn hyn	7	
Sut fydd y CO ₂ yn cael ei gludo?	8	Fel gweithredwr Cludiant a Storio, LBCCS sy'n berchen ar y seilwaith presennol ym Mae Lerpwl ac sy'n ei weithredu ac LBCCS fydd yr ymgeisydd fydd yn cyflwyno'r cais cynllunio yn y dyfodol.
Nodi llwybr y biblinell gangen	10	
Beth fydd yn cael ei adeiladu fel rhan o'r Datblygiad Arfaethedig?	12	Mae LBCCS yn gweithio gyda diwydiannau y mae'n anodd lleihau eu hallyriadau carbon i ddatgloi dyfodol carbon isel ar gyfer y rhanbarth trwy gludo CO ₂ o safleoedd dal ar draws gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, i'w storio yn ddiogel ac yn barhaol o dan Fae Lerpwl. Bydd CO ₂ yn cael ei storio mewn cronfeydd sydd wedi'u disbyddu sydd wedi dal nwy naturiol ers miliynau o flynyddoedd, gan gefnogi twf economaidd a helpu'r DU i gyrraedd ei hamcanion sero net.
Llwybr Piblinell Gangen Padeswood Rhan 1	14	
Llwybr Piblinell Gangen Padeswood Rhan 2	16	
Llwybr Piblinell Gangen Padeswood Rhan 3	18	
Llwybr Piblinell Gangen Padeswood Rhan 4	20	
Y broses adeiladu	22	
Rheoli'r gwaith adeiladu	24	
Mesurau diogelwch	25	
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	26	
Pynciau amgylcheddol	27	
Buddion y Datblygiad Arfaethedig	28	
Y broses gynllunio	29	
Dweud eich dweud	30	

Ynglŷn â Liverpool Bay CCS Limited

Ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig

Er mwyn dechrau datgarboneiddio'n gyflym, rhaid i ni weithio'n gyflym i leihau allyriadau carbon niweidiol o ddiwydiant lleol a glanhau ansawdd aer yn y rhanbarth gan ddefnyddio systemau dal a storio carbon (CCS).

Mae Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn rhan o brosiect datgarboneiddio diwydiannol blaenllaw sy'n ceisio mynd i'r afael ag allyriadau CO₂ a chefnogi twf economaidd yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Bydd yn cysylltu â Piblinell Carbon Deuocsid HyNet, prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol a dderbyniodd Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ym mis Mawrth 2024.

Byddai Datblygiad Arfaethedig y Biblinell Gangen yn cludo CO₂ o'r safle dal carbon newydd yng ngwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood, i Biblinell Carbon Deuocsid HyNet ym Mhentre-moch.

Yr ymgynghoriad hwn

Mae Liverpool Bay CCS Limited yn ymgynghori â chi am ei gynlluniau ar gyfer Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau a'r astudiaethau sydd wedi llunio'r cynigion hyd yn hyn. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am pam mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu a'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.

Mae barn y gymuned yn bwysig i ni a bydd yn cael ei hystyried wrth i ni gwblhau'r cynlluniau cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Gallwch rannu eich adborth trwy:



Ymweld â gwefan y prosiect: hynethub.co.uk

Cyflwyno eich adborth ar ein ffurflen adborth ar-lein.m.



Anfon e-bost at: hello@hynethub.co.uk



Anfon adborth ysgrifenedig i'n cyfeiriad rhabdost: **Freepost LBCCS**

Rydym yn croesawu'r holl adborth ac unrhyw gwestiynau sydd gennych am y prosiect.

Gallwch ysgrifennu atom neu anfon copi caled o'r ffurflen adborth. Bydd y ffurflen ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, neu gallwch ei hargraffu o'n gwefan a'i chwblhau â llaw os yw'n well gennych. Nid oes angen stamp arnoch i anfon sylwadau atom.

Os byddai'n well gennych gael copi caled o'r deunyddiau ymgynghori, neu os oes angen y rhain arnoch mewn gwahanol fformatau megis yn y Gymraeg, braille neu brint mawr, cysylltwch â ni.

Technoleg Dal a Storio Carbon

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r prosiect ar gyfer system dal a storio carbon (CCS) i wasanaethu clwstwr diwydiannol HyNet, cynigir tri datblygiad piblinell gangen i gysylltu â Phiblinell Carbon deuocsid HyNet.

Trwy'r system hon, bydd Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood yn caniatáu i CO₂ gael ei gludo'n ddiogel rhwng gwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood (allyrnydd diwydiannol dethol o CO₂) a'r cyfleusterau storio CO₂ ym Mae Lerpwl.

Pam mae angen CCS?

Mae CO₂ sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer yn un o brif achosion newid hinsawdd. Mae lleihau allyriadau CO₂ i'r atmosffer yn rhan hanfodol o reoli ein hargyfwng hinsawdd.

Mewn ymateb i newid hinsawdd, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu targed allyriadau sero net. Mae hyn yn golygu, erbyn 2050, y bydd yn rhaid gwrthbwyso unrhyw allyriadau CO₂ i'r atmosffer trwy gael gwared ag allyriadau cyfatebol. Mae asiantaethau amgylcheddol rhyngwladol a domestig, gan gynnwys y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd¹ a'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn y DU² o'r farn bod CCS yn hanfodol i gyflawni'r targedau hyn.

Mae rhai prosesau diwydiannol yn cynhyrchu llawer iawn o CO₂ sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer ar hyn o bryd. Er mwyn cyrraedd targedau'r DU, mae angen i ni leihau'r allyriadau hyn yn sylweddol. Mae CCS yn broses hanfodol bwysig, yn enwedig ar gyfer diwydiannau fel sment, sy'n ei chael hi'n anodd lleihau eu hallyriadau carbon. Gelwir y rhain yn ddiwydiannau 'anodd lleihau', gan fod CO₂ yn sgil-gynnyrch o'u gweithgynhyrchu. Mae dal CO₂ wrth ffynhonnell cynhyrchu ar y safleoedd diwydiannol hyn yn galluogi eu gweithrediadau i barhau tra'n lleihau eu hól troed carbon, diogelu swyddi'r diwydiant yn y broses a galluogi trosglwyddiad y DU i allyriadau sero net.

Sut mae'n gweithio

Mae CCS yn dechnoleg ddiogel a phroffedig sy'n gallu dal a storio hyd at 95% o allyriadau CO₂ a gynhyrchir mewn prosesau diwydiannol.



Cam dau: Cam un: Gosod y dechnoleg a fydd yn dal yr allyriadau CO₂ yn y safle diwydiannol, yn yr achos hwn gwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood. Mae'r cam hwn y tu allan i Ddatblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood, gan fod Heidelberg Materials yn gyfrifol am y safle dal carbon.



Cam dau: Yna caiff y CO₂ ei gludo drwy biblinell o'r safle diwydiannol i AGI Pentre-moch lle bydd yn cysylltu â Phiblinell Carbon Deuocsid HyNet. **Dyma'r cam yr ydym yn ymgeisio amdano.**



Cam tri: O AGI Pentre-moch, bydd y CO₂ yn cael ei gludo trwy Biblinell Carbon Deuocsid HyNet i gael ei storio'n ddwfn o dan wely'r môr mewn safleoedd alltraeth a ddewiswyd yn ofalus. Mae'r safleoedd storio hyn yn feysydd nwy naturiol wedi'u disbyddu o dan Fae Lerpwl, sydd wedi dal nwy naturiol yn ddiogel am filiynau o flynyddoedd yn flaenorol.

Mae CCS yn dechnoleg sefydledig sydd wedi dal a storio CO₂ o brosesau diwydiannol yn Ewrop ers 1996. Ar hyn o bryd mae dros 40 o brosiectau CCS gweithredol ledled y byd ac rydym yn gweithio gyda'r gymuned CCS rhyngwladol i rannu canlyniadau a gwersi allweddol a ddysgwyd ar brosiectau CCS ar raddfa fawr eraill. Rydym yn defnyddio'r mewnwelediadau gwerthfawr hyn o arfer gorau rhyngwladol wrth i ni ddatblygu ein cynigion.

Yn y DU, rheoleiddir CCS gan Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) Llywodraeth y DU ac rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod ein prosiectau CCS yn cydymffurfio â'u safonau.



Golygfa o Derfynfa Y Parlwr Du

¹ Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (2022). Newid yn yr Hinsawdd 2022: Lliniaru Newid Hinsawdd. Ar gael yn (gwelwyd 30/10/2024)

² Pwyllgor Newid Hinsawdd (2019). Adroddiad technegol sero net. Ar gael yn (gwelwyd 30/10/2024)

Ynglŷn â HyNet North West


Mae clwstwr datgarboneiddio diwydiannol HyNet yn cynrychioli casgliad o sefydliadau blaenllaw sy'n dod at ei gilydd i greu prosiect ynni arloesol. Ei nod yw lleihau allyriadau carbon o ddiwydiant a chefnogi twf yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr yn rhan o her y DU i gyrraedd allyriadau carbon sero-net.

Bydd yn dal, cludo a storio carbon gyda'r potensial i leihau allyriadau CO₂ o ddiwydiant hyd at 10 miliwn tonn bob blwyddyn yn y 2030au - sy'n cyfateb i dynnu pedair miliwn o geir oddi ar y ffordd. Bydd hefyd yn darparu rhwydwaith hydrogen carbon isel a fydd yn

cynhyrchu, storio a dosbarthu hydrogen i ddatgarboneiddio gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr.

Liverpool Bay CCS Limited fydd y gweithredwr cludo a storio CO₂ i wasanaethu clwstwr diwydiannol HyNet. Mae nodau ac egwyddorion y prosiect ar gyfer cludo a storio CO₂ wedi'u cefnogi gan Adran Diogelwch Ynni a Sero Net y Llywodraeth (DESNZ).

Mae mwy o wybodaeth am brosiect ehangach HyNet North West ar gael yn hynet.co.uk at hynet.co.uk



Mae CCS HyNet yn cynnwys:

- Cyfleusterau i ddal allyriadau CO₂
- Piblinellau i gludo allyriadau CO₂ i storfa ddiogel barhaol
- Storio mewn cronfeydd nwy wedi'u disbyddu alltraeth ym Mae Lerpwl

Mae elfennau pellach HyNet yn cynnwys:

- Gweithfeydd cynhyrchu hydrogen carbon isel
- Rhwydwaith piblinell hydrogen
- Ceudyllau halen lle gellir storio hydrogen

Y stori hyd yn hyn ..

Mae Llywodraeth y DU yn deall bod yn rhaid i bob rhan o'r economi ddatgarboneiddio a dod yn wyrddach, er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys diwydiant trwm.

Nododd y Llywodraeth fod HyNet yn un o ddau glwstwr 'Trac-1' ym mis Hydref 2021. Ar hyn o bryd, mae pedwar safle dal carbon wedi'u nodi fel rhan o Glwstwr HyNet. Yr allyrwy'r Trac-1 hyn yw:

- Gwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood
- Purfa EET yn Stanlow
- Cyfleuster Adfer Ynni Encyclis yn Ince
- Cyfleuster Ynni o Wastraff Viridor yn Runcorn

Ar hyn o bryd mae proses 'Ymestyn Trac-1' ar y gweill i Lywodraeth y DU benderfynu pa allyrwy'r eraill fydd yn dod yn rhan o'r rhwydwaith wrth i'r clwstwr ehangu.

Mae gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr bob amser wedi bod yn feysydd arloesi diwydiannol, gan ddarparu'r bwyd, tanwydd, cynhyrchion a gwasanaethau sy'n caniatáu i'r wlad hon ffynnu. Oherwydd hyn, mae'r rhanbarth yn gartref i ddigonedd o weithwyr medrus iawn.

Mae gan y rhanbarth dreftadaeth ddiwydiannol falch, ac mae'n parhau i fod yn gartref i ystod eang o ddiwydiannau ynni-ddwys o'r radd flaenaf. Mae hyn yn golygu y bydd clwstwr HyNet, a Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood, yn chwarae ei ran wrth gefnogi datgarboneiddio ystod eang o sectorau diwydiant, gan gynnwys ynni sment o wastraff, cemegau a phuro olew. Ar hyn o bryd mae pob cwmni yn y sectorau hyn yn allyrru symiau sylweddol o CO₂ yn ystod y broses cynhyrchu, ac felly rhaid iddynt newid eu prosesau i alluogi gweithrediadau cynaliadwy tymor hir.



Goleudy Y Parlwr Du

Sut fydd y CO₂ yn cael ei gludo?

Bydd Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn cysylltu'r gwaith dal carbon yng ngwaith sment Padeswood Heidelberg Materials UK â Phiblinell Carbon Deuocsid HyNet ym Mhentre-moch.

Bydd piblinell gangen yn cael ei hadeiladu i gludo CO₂ o'r Gosodiad Uwchben y Ddaear (AGI) Padeswood yng ngwaith sment Padeswood i AGI Pentre-moch. Yma, bydd yn cysylltu â Phiblinell Carbon Deuocsid ehangach HyNet a fydd yn cludo'r CO₂ yn ddiogel ymlaen i'r cronfeydd nwy wedi'u disbyddu ym Mae Lerpwl i'w storio.

Am fwy o wybodaeth am y Gosodiadau Uwchben y Ddaear (AGIs), trowch at dudalen 12.

Rhoddwyd caniatâd ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet ym mis Mawrth 2024 ac mae'n cynnwys piblinell danddaearol newydd, sydd wedyn yn cysylltu â phiblinell nwy naturiol sy'n bodoli eisoes. Bydd y biblinell nwy naturiol yn cael ei hailwrpasu fel y gall gludo CO₂ allan i'r safleoedd storio tua 1km o dan wely'r môr ym Mae Lerpwl.

Mae'r safle dal carbon yng ngweithiau sment Padeswood yn destun cais cynllunio ar wahân, a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru gan Heidelberg Materials UK ym mis Medi 2024. I weld y cais, ewch i [planningcasework.service.gov.wales](https://www.planningcasework.service.gov.wales) gan ddyfynnu'r cyfeirnod achos 'DNS CAS-02009-W1R1Z7'.

Mae'r ffin llinell goch drafft, a ddangosir yma ac ar dudalennau dilynol, yn cwmpasu coridor gweithio y biblinell a gynigir ar gyfer adeiladu Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau fel rhan o'r cais cynllunio.



Nodi llwybr y biblinell gangen

Bydd Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood tua 11km o hyd, gan gysylltu'r Safle Dal Carbon arfaethedig yng ngwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood â Phiblinell Carbon Deuocsid HyNet yng Ngosodiad Uwchben y Ddaear (AGI) Pentre-moch.

Er mwyn penderfynu ar y llwybr gorau o waith sment Padeswood i gysylltiad Piblinell Carbon Deuocsid HyNet yn AGI Pentre-moch, rydym wedi cynnwys ystyriaethau peirianyddol, amgylcheddol, cynllunio a pherchnogaeth tir.

Wrth gynllunio'r llwybr, gwnaethom ganolbwyntio ar y ffactorau allweddol hyn:



Diogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol.



Sicrhau bod carbon deuocsid yn cael ei gludo'n ddiogel.



Sicrhau bod y llwybr yn dechnegol gadarn ac yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl.



Hybu manteision lleol drwy greu cymaint o effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol â phosibl yn yr ardal.




Sicrhau bod y prosiect yn gost-effeithiol.

Cam 1: Datblygiad coridor y llwybr

I benderfynu ar goridor tir a allai letya Datblygiad Arfaethedig y Biblinell Gangen, cynhaliwyd ymarfer pwysoli ymhlith ystod o bynciau gan gynnwys ecoleg, treftadaeth ddiwylliannol, amgylchedd dŵr, a daear a phriddoedd. Roedd yr ymarfer pwysoli hwn yn nodi cyfyngiadau a fwydwyd i mewn i declyn mapio digidol a gynhyrchedd gyfres o fapiau, gan gulhau'r coridor a'r opsiynau ar gyfer y llwybr.

Ystyriodd tîm y prosiect y cyfyngiadau a nodwyd yn ogystal â materion amgylcheddol, ymgysylltu â thirfeddianwyr, ystyriaethau technegol, a pholisi cynllunio. Yna nodwyd coridor ar gyfer y llwybr yn seiliedig ar yr ystyriaethau hyn.



Cam 2: Datblygu'r opsiynau ar gyfer y llwybr

Er mwyn penderfynu ar opsiynau ar gyfer y llwybr o fewn y coridor a nodwyd, rhannodd y tîm y coridor yn 11 rhan. Rhannwyd rhai o'r rhannau hyn ymhellach yn opsiynau llwybrau lluosog, sy'n golygu bod cyfanswm o 20 o opsiynau llwybr wedi'u hystyried o blith yr 11 rhan. Cynhaliwyd gwerthusiad manwl o'r holl opsiynau ar gyfer y llwybrau, gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd, perchnogaeth tir, ystyriaethau peirianyddol a chynllunio, gan ategu'r wybodaeth a ystyriwyd yng Ngham 1.

Pan oedd gan ran fwy nag un opsiwn llwybr, defnyddiwyd y broses bwysoli o Gam 1 i bennu'r 'dewisiadau llwybr a ffeirir', 'opsiynau gyda pheth potensial' a'r 'opsiwn a ffeirir leiaf' ar gyfer y rhan honno.


Arfarnwyd y llwybr a ffeirir mewn proses ailadroddol sydd wedi ystyried canfyddiadau adolygiad parhaus, gwybodaeth o'r arolwg a dyluniadau o'r cyfyngiadau a bennwyd ymlaen llaw o Gam 1.

Cam 3: Mireinio'r opsiynau ar gyfer y llwybr

Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) i nodi effeithiau amgylcheddol, megis yr effaith ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, nwyon tŷ gwydr a phridd. Mae'r AEA hefyd yn cynnwys atebion i helpu i liniaru'r effeithiau hyn. Gall mesurau liniaru gynnwys addasiadau i'r dyluniad, datblygu Cynllun Rheoli Amgylcheddol, a champau gweithredu o safon diwydiant i leihau effeithiau amgylcheddol. Bydd canlyniadau'r Asesiad Effaith Amgylcheddol hwn a'r adborth o'r ymgynghoriad hwn yn mireinio dyluniad y llwybr a ffeirir.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein Hasesiad Effaith Amgylcheddol ar dudalennau 26 a 27. Rydym hefyd wedi sicrhau bod ein Datganiad Amgylcheddol drafft ar gael i roi sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gallwch ddarganfod mwy am ein proses o ddewis opsiynau ar gyfer y llwybr ac opsiynau amgen a ystyriwyd ym Mhennod 4 ein Datganiad Amgylcheddol drafft.



Beth fydd yn cael ei adeiladu fel rhan o'r datblygiad arfaethedig?

- **Gosodiad uwchben y ddaear (AGI) Padeswood:** yn cynnwys clos â ffens o'i amgylch, tua 50m x 28m, yn cynnwys offer a gynlluniwyd i dderbyn carbon deuocsid o safle dal carbon gwaith sment Heidelberg Materials UK. Bydd hyn yn sicrhau gweithrediad diogel ac effeithlon y biblinell gangen. Byddai'r AGI wedi'i leoli ar dir diwydiannol sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o waith dal carbon Heidelberg Materials UK. Bydd yn cynnwys:
 - Pibellwaith a seilwaith cysylltiedig, a phwynt cyswllt i waith CCS Heidelberg Materials.
 - Ciosg trydanol ac offeryniaeth ar gyfer dosbarthu pŵer a rheoli a monitro'r system. Bydd hwn 5 metr o uchder ar y mwyaf.
 - Ffens ffin llinell gadwyn ddiogel hyd at 3 metr o uchder gyda gatiau a cholofnau goleuadau perimedr hyd at 5 metr o uchder.
 - Seilwaith draenio dŵr wyneb sy'n cysylltu â system draenio gwaith CCS Heidelberg Materials UK.
- **Piblinell gangen sy'n cludo carbon deuocsid,** gan gysylltu AGI Padeswood ag AGI Pentre-moch (sydd eisoes wedi cael caniatâd datblygu yn rhan o Biblinell Carbon Deuocsid HyNet). Bydd y bibell gangen yn cynnwys pibell ddr â diameter o 16" tua 11km o hyd. Bydd wedi ei chladdu trwy dir amaethyddol ar ei holl hyd, ar ddyfnder safonol o 1.2 metr, ac eithrio rhannau a fydd yn mynd o dan prif ffyrdd a chyrsgiau dŵr. Bydd y rhain yn defnyddio technegau croesi heb ffosydd arbenigol yn fwy dwfn, ceir eu manylion dudalennau 22 a 23.
- **Offer ychwanegol** yn AGI Pentre-moch (sydd eisoes wedi cael caniatâd datblygu drwy Orchymyn Caniatâd Datblygu Piblinell Carbon Deuocsid HyNet).
- **Clos adeiladu dros dro** i hwyluso gwaith adeiladu, gan gynnwys gweithdai, man storio ac ardaloedd gadael offer.
- **Traciau mynediad adeiladu dros dro** i hwyluso gwaith adeiladu a lleihau aflonyddwch ac effeithiau amgylcheddol.

Beth yw Gosodiad Uwchben y Ddaear (AGI)?

Mae AGI yn caniatáu ar gyfer gweithrediad diogel ac effeithlon y biblinell gangen, yn ogystal ag ar gyfer archwiliadau a chynnal a chadw arferol. Bydd pob AGI wedi'i gynllunio i ategu'r amgylchedd lleol yn weledol, sy'n golygu y bydd y lliwiau a ddefnyddir yn ceisio cyd-fynd â'r dirwedd.

Mae seilwaith arall ar gyfer y biblinell gangen yn cynnwys:

- Prif gysylltiad cebl ffibr optig (FOC) i ddarparu cyswllt telathrebu rhwng AGI Padeswood ac AGI Pentre-moch.
- Cysylltiad FOC eilaidd i gysylltu AGI Padeswood â therfynell Y Parlwr Du.
- Offer canfod gollyngiadau gan ddefnyddio system fonitro dirgryniad-acwstig. Bydd synwryddion pwrpasol yn cael eu gosod yn uniongyrchol ar y biblinell.
- Pyst marcio i nodi lle mae'r biblinell wedi'i chladdu o dan y ddaear ac i alluogi gwiriadau o'r awyr.

Am fwy o wybodaeth am y disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig, cyfeiriwch at ein Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol. Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 3 ein Datganiad Amgylcheddol drafft. Gellir gweld y dogfennau cynllunio drafft yn hynethub.co.uk/padeswood



Rhan 1 Llwybr Piblinell Gangen Padeswood

Bydd Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn cael ei chladdu o dan dir amaethyddol am holl hyd y llwybr. Bydd rhai rhannau o'r biblinell gangen yn cael eu claddu o dan ffyrdd, coetiroedd a chyrsiau dŵr.

Yn yr adran hon, bydd y cyfleuster dal carbon arfaethedig ar safle gwaith sment Padeswood yn cysylltu â Phiblinell Gangen Padeswood trwy AGI Padeswood. Bydd AGI Padeswood wedi'i leoli yng nghornel ogledd-orllewinol y cyfleuster dal carbon, ynghyd â'r offer cysylltiedig a nodir ar dudalen 12.

Bydd y biblinell gangen yn rhedeg i'r gogledd o AGI Padeswood ac yn croesi'r A5118, yna'n troi i'r gorllewin ac yn rhedeg i'r de o Fwcle gerllaw yr A5118. Yna, bydd yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd-orllewin gan groesi Padeswood Road South a chwrs dŵr Foundary Drain.

Bydd rheoli traffig dros dro ar waith pryd bynnag y bydd angen offer adeiladu groesi Padeswood Road South.

Rydym yn cynnig ardaloedd lliniaru ecolegol i'r de o Fwcle, i'r gorllewin o Padeswood Road South. Yn agos at goetir hynafol a chynefinoedd glan afon, gallai'r ardaloedd hyn gynnwys plannu i ehangu cynefinoedd a gwella'r amgylchedd yn yr ardaloedd hyn.



Rhan 2 Llwybr Piblinell Gangen Padeswood

Bydd llwybr Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn mynd heibio rhwng Mynydd Isa a'r Wyddgrug. O fewn y rhan hon, mae'r llwybr yn rhedeg i'r de o Fwcle i gyfeiriad y gogledd-orllewin tuag at Fynydd Isa, gan groesi coetir a chwrs dŵr Clawdd Wat, a Rose Lane.

Bydd y llwybr yn mynd heibio rhwng Mynydd Isa a'r Wyddgrug, gan groesi dan yr A549 Ffordd yr Wyddgrug i'r dwyrain o gylchfan Wylfa. Yna bydd y biblinell yn croesi dan Ffordd Osgoi'r Wyddgrug ddwywaith, i'r gogledd o gylchfan Wylfa ac yna'n rhedeg ochr yn ochr â Ffordd Osgoi'r Wyddgrug i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Ar gyfer croesfannau Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, defnyddir technegau gosod croesfannau heb ffosydd arbenigol i leihau effeithiau ac aflonyddwch i ddefnyddwyr y ffordd. Mae hyn yn golygu y bydd y ffordd yn aros ar agor yn ystod y gwaith gosod. Bydd rheoli traffig dros dro ar waith pryd bynnag y bydd angen i offer adeiladu groesi Rose Lane.



Rhan 3 Llwybr Piblinell Gangen Padeswood

Yn y rhan hon, bydd Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn cael ei chladdu o dan dir amaethyddol ger Pentre Cythrel. Bydd y biblinell yn rhedeg wrth ymyl Ffordd Osgoi'r Wyddgrug cyn croesi o dan Ffordd Bryn-y-Baal. Yna bydd yn rhedeg ymhellach i'r gogledd ac yn mynd o dan yr A494, i'r dwyrain o gylchfan Pentre Cythrel, gan barhau i'r gogledd a chroesi Ffordd Alltami.

Ar gyfer y ffyrdd hyn, bydd y biblinell yn cael ei gosod gan ddefnyddio technegau croesi heb ffosydd i leihau effeithiau ac osgoi eu cau yn y tymor hir yn ystod y gwaith gosod. Bydd rheoli traffig dros dro ar waith pryd bynnag y bydd angen i offer adeiladu groesi Ffordd Bryn-y-Baal a Ffordd Alltami.

Rydym yn cynnig lleoli Clos Adeiladu Canolog dros dro yn yr ardal hon, oddi ar yr A5119 ger gorsaf wasanaeth Shell. Bydd hwn yn bwynt canolog ar gyfer storio offer, pibellwaith a deunydd arall i'w ddsbarthu i ardaloedd storio yn y clos eraill. Bydd y Clos Adeiladu Canolog yn cynnwys diogelwch, manau storio dros dro, gweithdai paratoi, cyfleusterau parcio a swyddfa dros dro. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, bydd y clos yn cael ei ddatgymalu'n llwyr. Yna bydd yr ardal yn cael ei hadfer.



Rhan 4 Llwybr Piblinell Gangen Padeswood

Yn y rhan hon, bydd Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yn rhedeg tua'r gogledd tuag at yr A55 ac ardal o Goetir Hynafol. Wrth groesfan y ffordd ac o dan yr ardal hon o Goetir Hynafol, bydd y biblinell gangen yn cael ei gosod gan ddefnyddio technegau croesi heb ffosydd i leihau effeithiau ac osgoi'r angen i gau a dargyfeirio'r A55.

Yna bydd y biblinell gangen yn rhedeg i'r gogledd o'r A55 i gysylltu ag AGI Pentre-moch, sy'n cysylltu â Phiblinell Carbon Deuocsid HyNet. Yna bydd y CO2 yn cael ei gludo ymlaen i storfa tanfor ym Mae Lerpwl. Rhoddwyd caniatâd i Biblinell Carbon Deuocsid HyNet, gan gynnwys AGI Pentre-moch, drwy Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mawrth 2024.

Bydd offer ychwanegol, yn cael ei osod yn AGI Pentre-moch i hwyluso'r cysylltiad. Bydd ôl troed a nodweddion gweledol yr AGI, fel goleuadau a ffensio, yn cadw at amodau cydsyniol y DCO. Ni fydd dim o'r offer hwn yn fwy na 5 metr o uchder.



Y broses adeiladu





Bydd y dull o osod y biblinell gangen gladdedig yn cynnwys cyfuniad o dechneg ffos agored a chroesfannau heb ffosydd.

Bydd y dechneg ffos agored yn golygu cloddio pridd i ffurfio ffos, gostwng y bibell i'r ffos, a'i ail-lenwi â'r pridd a gloddiwyd.

Defnyddir technegau heb ffosydd wrth osod piblinellau o dan brif ffyrdd, coetiroedd a chyrsiau dŵr. Yn yr achosion hyn, byddwn yn defnyddio dulliau megis **drilio cyfeiriadol llorweddol, tyllu troellog neu ficro-dwnelu**. Mae'r technegau hyn yn ein galluogi i osod y biblinell gangen tra'n caniatáu i ffyrdd aros ar agor a chyfyngu ar effeithiau ar safleoedd ecolegol gwarchoddedig.

Bydd biblinell gangen ar ddyfnder lleiaf o 1.2m mewn rhannau toriad agored ac yn ddyfnach ar gyfer croesfannau heb ffosydd er mwyn osgoi gwasanaethau presennol a rhwystrau ffisegol.

Er bod y biblinell yn gymharol fach (bydd ganddi uchafswm diamedr o 20 modfedd, neu oddeutu 51cm), bydd y gofod sydd ei angen i'w osod yn ddiogel fel arfer yn 25 i 27 metr o led. Mae hyn yn caniatáu digon o le i gloddio'r ffos a gosod y bibell, yn ogystal â darparu lle ar gyfer storio pridd yn ystod y gwaith gosod a galluogi mynediad i gerbydau. Bydd angen lle ychwanegol mewn lleoliadau lle mae angen i ni weithredu croesfan heb ffosydd."



Rheoli adeiladu

Yn ystod y gwaith adeiladu, byddwn yn cymryd pob rhagofal i gadw pawb yn ddiogel. Bydd rhwystrau o amgylch ein meysydd gwaith dros dro a diogelwch priodol ar waith.

Fel un o amodau'r brydles dros dir tirfeddianwyr, bydd hawddfrait o amgylch y biblinell gangen ar waith unwaith y bydd wedi'i gosod. Mae hyn er mwyn atal unrhyw ddatblygiad ar ei ben a allai beri risg diogelwch i'r biblinell gangen. Fodd bynnag, bydd traciau a cherbydau fferm yn gallu croesi dros y biblinell gangen yn ddiogel.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau'r amhariad, gan gynnwys gweithio yn ystod y dydd yn unig a sicrhau cyn lleied o draffig â phosibl.

Bydd rhai lleoliadau lle mae croesfannau hen ffosydd yn cael eu creu yn gofyn am weithio 24 awr y dydd, ond bydd hyn am gyfnodau byr.



Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, byddwn yn dychwelyd y tir mor agos â phosibl i'w gyflwr gwreiddiol. Byddwn hefyd yn ailblannu neu'n disodli gwrychoedd neu ffensys ar ôl eu hadeiladu lle bo hynny'n bosibl.

Yn gyffredinol, bydd mynediad dros dro ar gyfer y clos adeiladu yn cael ei sefydlu i leihau aflonyddwch ac effeithiau amgylcheddol lleol. Bydd mynediad yn cael ei sefydlu o'r rhwydwaith ffyrdd presennol drwy draciau mynediad dros dro.

Os rhoddir caniatâd cynllunio, rydym yn rhagweld y bydd y gwaith o adeiladu'r holl ddatblygiadau arfaethedig ar gyfer y biblinell gangen yn dechrau yn hydref 2026 ac yn parhau tan Wanwyn 2028.

Mesurau diogelwch

Dal a Storio Carbon

Mae gan Liverpool Bay CCS Limited brofiad helaeth o ddylunio, adeiladu a gweithredu piblinellau nwy pwysedd uchel diogel ac effeithiol a bydd yn defnyddio'r arbenigedd hwn i ddatblygu Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood i'r safonau diogelwch uchaf. Mae'r DU yn gartref i amrywiaeth o ddiwydiannau perygl uchel ac mae wedi datblygu cyfundrefn reoleiddio diogelwch o'r radd flaenaf.

Bydd LBCCS yn monitro Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Padeswood yn ofalus, trwy gydol yr holl gamau gweithredu, cludo, chwistrellu a chyfyngu ar y CO₂ yn ddiogel, o fewn y gronfa, gan ddefnyddio technegau o'r radd flaenaf.

Mae nwy wedi parhau i fod wedi'i ddal yn ddiogel mewn strwythurau daearegol fel cronfeydd tywodfaen, fel y rhai ym Mae Lerpwl, ers miliynau o flynyddoedd. Mae'r cronfeydd hyn yn ddwfn o dan wyneb gwely'r môr. Bydd storfa CO₂ Bae Lerpwl hyd at 1km o dan wely'r môr a thua 20 milltir o'r lan. Mae cannoedd o fetrau o siâl yn gorwedd dros ben y cronfeydd tywodfaen hyn, gan wneud haen anhydraidd sy'n dal y nwy yn ei le. Bydd y CO₂ yn cael ei storio yn yr un modd â'r nwy naturiol gwreiddiol, a bydd yn aros yn ddiogel yn y cronfeydd tywodfaen.

Safonau Diogelwch

Bydd dylunio, gweithredu a chynnal a chadw'r system biblinellau'n cydymffurfio â chodau a safonau sefydledig, Rheoliadau cymwys y DU (gan gynnwys Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996) ac arferion gorau'r diwydiant. Ynghyd ag asesiadau diogelwch manwl, a systemau rheoli gweithredol ac uniondeb, bydd y rhain yn sicrhau bod y potensial ar gyfer unrhyw ollyngiad CO₂ yn cael ei leihau cyn lleied ag sy'n rhesymol ymarferol.

Bydd monitro a chynnal a chadw'r biblinell gangen arfaethedig yn cael ei wneud yn rheolaidd. Bydd systemau canfod gollyngiadau yn cael eu gosod ar y rhwydwaith piblinell


gangen arfaethedig gyda rhybudd cynnar a nodi o bell gan sicrhau y gellir rheoli'r biblinell yn ddiogel os bydd unrhyw ollyngiadau. Bydd synwryddion nwy pwynt CO₂ hefyd yn cael eu gosod yn AGI Padeswood.

Mae LBCCS wrthi'n ymgysylltu â Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch y DU (Rheoleiddiwr Diogelwch y DU, gan gynnwys piblinellau cangen), gan sicrhau bod y biblinell a'i gweithrediad yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol a chanllawiau cysylltiedig.

Monitro tymor hir

Er mwyn sicrhau diogelwch y storfa alltraeth o dan Fae Lerpwl, bydd rhaglen o fonitro, mesur a gwerthuso yn asesu ymddygiad ac uniondeb y CO₂ trwy gydol ei oes arfaethedig o 25 mlynedd.

Yn dilyn hyn, bydd cam gwaith 'ar ôl cau' yn digwydd i roi terfyn ar chwistrellu CO₂ i'r gronfa a sicrhau ei bod yn parhau i fod wedi'i hamgáu'n barhaol ynddo. Bydd y cyfnod monitro ôl-chwistrellu a gyflawnir gan weithredwr y drwydded yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol ac nid yw'n destun trafod.



Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Yn rhan o'r broses gynllunio, mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn cael ei gynnal i ddeall yr effeithiau tebygol y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr amgylchedd. Mae hyn yn ystyried yr effeithiau posibl ar adeiladu, gweithredu a chynnal y datblygiad arfaethedig. Er bod yr AEA wedi'i gomisiynu gan Liverpool Bay CCS Limited, mae'n cael ei wneud gan arbenigwyr amgylcheddol annibynnol a chymwys priodol.

Mae pedwar cam allweddol i'r broses AEA:

1

Casglu gwybodaeth a data am yr ardal fel y mae ar hyn o bryd, megis deall y bywyd gwylt lleol sy'n bresennol yn yr ardal leol. Mae hyn yn cynnwys arolygon maes, y mwyafrif ohonynt bellach wedi'u cwblhau.

2

Disgrifir graddfa'r materion a'r pynciau sydd i'w hystyried fel rhan o'r AEA mewn Adroddiad Cwmpasu. Ar gyfer y prosiect hwn, cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu AEA i Gyngor Sir y Fflint i'w adolygu ym mis Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, darparodd yr Awdurdod Lleol ei Farn Gwmpasu ym mis Mai 2024 i gadarnhau maint yr AEA.

3

Mae Datganiad Amgylcheddol drafft wedi'i baratoi, gan ystyried adborth o ganlyniadau'r arolyg, gwybodaeth ddylunio, opsiynau ac adborth gan randdeiliaid. Mae'n disgrifio canfyddiadau'r asesiadau a'r effeithiau yr ydym wedi'u nodi hyd yma, a sut rydym yn bwriadu osgoi, lleihau cymaint â phosibl yr effeithiau hyn. Mae'r Datganiad Amgylcheddol drafft hwn wedi ei gyhoeddi ac mae ar gael i'w wneud yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn.

4

Bydd sylwadau a dderbynnir i'r ymgynghoriad hwn ar y Datganiad Amgylcheddol drafft yn cael eu hystyried, ynghyd ag unrhyw arolygon ac asesiadau sy'n weddill. Yna bydd y Datganiad Amgylcheddol terfynol yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio i Gyngor Sir y Fflint, a ragwelir ar gyfer haf 2025.


Pynciau amgylcheddol

Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu nifer o bynciau yn ogystal ag unrhyw fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol i sicrhau effaith gyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys:

- **Ansawdd aer**
- **Newid hinsawdd**, gan gynnwys y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd a nwyon tŷ gwydr
- **Treftadaeth ddiwylliannol ac archaeoleg**
- **Ecoleg a bioamrywiaeth**
 - Safleoedd Dynodedig
 - Cynefinoedd â blaenoriaeth gan gynnwys Coed a gwrychoedd
 - Rhywogaethau a warchodir
 - Enillion net bioamrywiaeth
- **Tir a phridd**
- **Tirwedd a golygfeydd**
- **Damweiniau mawr a thrychinebau**
- **Mesurau lliniaru a diogelwch**
- **Sŵn a dirgryniad**
- **Iechyd a lles pobl**
- **Traffig a thrafnidiaeth**
- **Rheoli dŵr a llifogydd**

Mae'r Datganiad Amgylcheddol drafft ar gael i roi sylwadau arno fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr adborth arno yn cael ei ystyried wrth ei gwblhau cyn iddo gael ei gyflwyno i Gyngor Sir y Fflint fel rhan o'r cais cynllunio.

Mae Crynodeb Annhechnegol o'r holl ganfyddiadau yn y Datganiad Amgylcheddol drafft hefyd ar gael i'w weld yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir gweld y dogfennau yn hynethub.co.uk







Buddion y Datblygiad Arfaethedig

Bydd ein cynigion yn cefnogi miloedd o swyddi newydd yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Bydd mwy o gyfleoedd i bobl leol hefyd, gan fanteisio ar gyfuniad yr ardal o brofiad diwydiannol ac arbenigedd gwyddonol, a fydd, gyda'i gilydd, yn creu man cychwyn ar gyfer arloesi a thwf. Byddwn yn dod â chyfleoedd i bobl leol ddatblygu setiau sgiliau newydd a hyfforddiant i weithio mewn sectorau cyffrous sy'n arwain y byd.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y Biblinell Gangen i gymunedau lleol, byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr lleol lle bo hynny'n bosibl. Er mwyn sicrhau bod dyluniad ac adeiladwaith y Biblinell Gangen yn cael fawr o effaith amgylcheddol, bydd ein prosesau caffael yn ystyried cyflenwyr sydd â sgorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu cryf (ESG).

Mae nifer o fanteision i'r gymuned leol, gan gynnwys:

-  Profiad addysgol i bobl ifanc
-  Profiad gwaith i'r rhai sy'n ystyried eu hopsiynau
-  Prentisiaethau a chyfleoedd gyrfa
-  Cyllid cymunedol ar gyfer mentrau amgylcheddol ac addysgol
-  Gwirfoddoli gan dîm y prosiect i helpu mentrau lleol

Mae rhai o'r prosiectau lleol rydym wedi'u cefnogi yn cynnwys;

- **DangerPoint:** Canolfan arobryn sy'n cynnig cyfle i ymwelwyr, yn enwedig ysgolion a grwpiau wedi'u trefnu, ddysgu am ddiogelwch mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol.
- **Ceidwaid Sir y Fflint:** Ariannu darpariaeth Ceidwad Arfordirol, a drefnir gan Gyngor Sir y Fflint, i helpu i reoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gronant a Twyni Cwningfa Talacre (SoDdGA).
- **Cefnogi twristiaeth leol:** Partneru gydag amryw o gymdeithasau lleol i greu llwybrau beiciau, llwybrau natur ac atyniadau treftadaeth yn yr ardal.



Y broses gynllunio

Cam y prosiect

Mae Datblygiad Arfaethedig PiblinellGangen Padeswood ar hyn o bryd yn ei gyfnod gwneud cais cyn-gynllunio. Gwnaethom ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid a'r gymuned leol trwy gydol 2024, gan gynnwys sesiynau briffio, cyfarfodydd, a digwyddiad gwybodaeth cymunedol.

Dyma ein Hymgyngoriad Cyn Ymgeisio statudol, yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, lle rydym yn darparu gwybodaeth fanylach a dogfennau cais cynllunio drafft, ac yn gofyn am adborth. Mae'r adborth hwn yn bwysig i ni a bydd yn helpu i gwblhau ein cais cynllunio.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Mae Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood o fewn ffin Awdurdod Lleol Cyngor Sir y Fflint. I gael caniatâd i adeiladu'r datblygiad arfaethedig, bydd Liverpool Bay CCS Limited (yr Ymgeisydd) yn paratoi cais cynllunio i'w gyflwyno o dan Ddeddf Cynllunio Tref a Sir 1990 (fel y'i diwygiwyd) i Gyngor Sir y Fflint yn haf 2025.

Cyfnod ôl-gyflwyno

Unwaith y bydd y cais wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir y Fflint, cewch gyfle arall i ddweud eich dweud drwy roi sylwadau ar y cais, y gallwch eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Cyngor.



Mae dogfennau cais cynllunio drafft, gan gynnwys Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad drafft, ar gael i roi sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd adborth ar y rhain yn cael ei ystyried wrth eu cwblhau cyn iddynt gael eu cyflwyno i Gyngor Sir y Fflint fel rhan o'r cais cynllunio.

Dweud eich dweud

Rydym eisiau eich adborth ar ein cynlluniau ar gyfer Piblinell Gangen Padeswood a'r dogfennau cais cynllunio drafft yr ydym wedi'u darparu. Mae eich barn yn bwysig i ni, a byddwn yn ystyried yr holl adborth wrth i ni gwblhau ein cais cynllunio.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn weithredol rhwng **26 Mawrth a 29 Ebrill 2025**. Cyflwynwch eich adborth erbyn 11.59pm ar 29 Ebrill 2025 i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried.

Cwrdd â'r tîm:

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn yr ardal leol. Dyma eich cyfle i gwrdd â'n tîm a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

3 Ebrill 2025 rhwng 7pm a 8pm Cofrestru ar gyfer digwyddiad ar-lein yn hynethub.co.uk/padeswood

5 Ebrill 2025 rhwng 11am a 3pm a ym Mhafiliwn Pentre-moch, Llys Ben, Pentre-moch, Yr Wyddgrug CH7 6GF

9 Ebrill 2025 rhwng 3pm a 7pm at New Brighton Community Centre, Moel Famau Road, New Brighton, Mold CH7 ng Nghanolfan Gymunedol Pentre Cythrel, Ffordd Moel Famau, Pentre Cythrel, Yr Wyddgrug CH7 6QU

Gallwch roi eich adborth ar y cynlluniau ar gyfer Datblygiad Arfaethedig Piblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood trwy:



Ymweld â gwefan y prosiect: hynethub.co.uk/padeswood
Cyflwyno eich adborth ar ein ffurflen adborth ar-lein.



Anfon adborth ysgrifenedig i'n cyfeiriad rhadbost: **Freeport LBCCS** Ysgrifennu llythyr atom neu anfon gopi caled o'r ffurflen adborth. Bydd ffurflenni adborth ar gael yn y digwyddiadau neu ar gais. Nid oes angen stamp arnoch.



Anfon e-bost at: hello@hynethub.co.uk



Llun o'n digwyddiad gwybodaeth gymunedol ym mis Awst 2024



If you would like a hard copy version of this brochure or other materials available online, you can contact us using the details below. This brochure can also be made available in large print, braille or other languages upon request.

Os hoffech chi gael copi caled o'r llyfryn hwn neu ddeunyddiau eraill, gallwch chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael yn Saesneg, mewn print bras, mewn Braille, neu mewn ieithoedd eraill ar gais.



hynethub.co.uk



hello@hynethub.co.uk



Freepost LBCCS